| | |
|---|---|
| | cyfansoddiad arfaethedig ei fwrdd a gofynion staffio. |
| Datblygu polisi ac ymarfer ac ymagwedd at fethodolegau maint cynghorau ar gyfer y rhaglen arolygu deng mlynedd nesaf, gan ystyried gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen arolygu ddiweddar. | Er mwyn osgoi unrhyw waith diwerth tra bod y Comisiwn yn aros am y ddeddfwriaeth newydd, mae'r Comisiwn wedi gohirio datblygu Polisi ac Ymarfer ar gyfer y rhaglen arolygu deng mlynedd nesaf. Mae'r Comisiwn wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar sicrhau bod sylfeini'r rhaglen arolygu nesaf yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod y cyfnod hwn. Cyhoeddodd y Comisiwn ganllawiau ar gyfer Arolygon Cymunedol i alluogi Awdurdodau Lleol i gynnal arolwg o'u ffiniau cymunedol. Mae'r Comisiwn wedi cael ei gomisiynu i gynnal nifer o Arolygon Cymunedol ar ran awdurdodau lleol ac wedi rhoi cyngor i awdurdodau lleol ar gynnal eu harolygon eu hunain. |
| Ymgysylltu'n eang, gan gynnwys â'r cyhoedd a rhanddeiliad, ynglŷn â'r methodolegau a fydd yn sail i'r rhaglen arolygu etholiadol nesaf. | Mae'r Comisiwn wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy ei waith ar Arolygon Cymunedol yn ogystal â thrwy gefnogi Llywodraeth Cymru yn y digwyddiadau ymgynghori ar y Papur Gwyn Diwygio Etholiadol.<br><br>Mae'r Comisiwn hefyd wedi comisiynu ymchwil annibynnol ar effaith newidynnau gan gynnwys gwledigrwydd, amddifadedd, a chartrefi gwyliau ar lwyth gwaith cynghorwyr sir. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn bwydo i'r fethodoleg maint cynghorau ar gyfer y rhaglen arolygu nesaf. |
| Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i amlinellu'r rhaglen arolygu deng mlynedd nesaf, gan gynnwys trefn yr arolygon a'u hamserlenni unigol. | Nid yw'r Comisiwn wedi amlinellu ei raglen arolygon etholiadol nesaf o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth yn ymwneud â diwygio etholiadol. Fodd bynnag, gan fod y Comisiwn wedi dechrau cynnal arolygon cymunedol, bydd yr awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig yn ffurfio'r gyfres gyntaf o arolygon etholiadol. |
| Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a sefydlu fframwaith recriwtio prif swyddog gweithredol y Comisiwn fel y'i hamlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. | Mae'r Comisiwn wedi darparu fframwaith recriwtio drafft i Lywodraeth Cymru. |
| Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu a diweddaru dogfen fframwaith y Comisiwn. | Gweithiodd y Comisiwn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar adolygu'r ddogfen fframwaith. Ymgorfforwyd newidiadau yn nogfen 22-23 a bydd rhagor o newidiadau'n cael eu gwneud ar gyfer 23-24. |

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Rhwymedigaethau pensiwn

Telir y cyfryw symiau i'r Tâl-feistr Cyffredinol ag a allai fod yn briodol i gynrychioli rhwymedigaethau sy'n crynhoi ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Tâl a nodyn 1.12 i'r cyfrifon.

### Iawndal ar gyfer colli swydd

Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â cholli neu derfynu swydd yn ystod 2022-23 (ac ni wnaed unrhyw daliadau yn ystod 2021-22).

### Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig *(yn destun archwiliad)*

| | **2022-23 Staff a gyflogir yn barhaol £** | **2022-23 Secondiadau o'r tu allan £** | **2022-23 Staff Asiantaeth £** | **2022-23 Aelodau'r Comisiwn £** | **2022-23 Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | **414,389** | **-** | **-** | **42,202** | **456,591** |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | **44,817** | **-** | **-** | **2,657** | **47,474** |
| **Costau pensiwn** | **111,341** | **-** | **-** | **-** | **111,341** |
| **Cyfanswm Costau Net** | **570,547** | **-** | **-** | **44,859** | **615,406** |
| | | - | - | | |

**Nifer yr unigolion a gyflogir ar gyfartaledd**
**Roedd nifer gyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn fel a ganlyn:**

| | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogir yn Uniongyrchol** | **9.6** | **-** | **-** | **9.6** | **19.2** |
| **Arall** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm Staff** | **9.6** | **-** | **-** | **9.6** | **19.2** |

Cymaryddion:

| | 2021-22 Staff a gyflogir yn barhaol £ | 2021-22 Secondiadau o'r tu allan £ | 2021-22 Staff Asiantaeth £ | 2021-22 Aelodau'r Comisiwn £ | 2021-22 Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 365,640 | 5,289 | - | 68,114 | 439,043 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 35,297 | 460 | - | 4,153 | 39,910 |
| Costau pensiwn | 92,183 | 1,433 | - | - | 93,616 |
| | 493,120 | 7,182 | - | 72,267 | 572,569 |

Nifer yr unigolion a gyflogir ar gyfartaledd
Roedd nifer gyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn fel a ganlyn:

| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogir yn Uniongyrchol | 9.4 | - | - | 8.1 | 17.5 |
| Arall | - | 0.2 | - | - | 0.2 |
| Cyfanswm Staff | 9.4 | 0.2 | - | 8.1 | 17.7 |

dderbyn neu ddanfon y nwyddau neu'r gwasanaethau.

1.17 **Rhwymedigaethau Prydles Hawl Defnyddio**

Caiff prydlesi eu cyfalafu pan fydd y Comisiwn yn cael budd economaidd o ddefnyddio'r ased hwnnw. Caiff y rhwymedigaeth gysylltiedig ei chydnabod yn y datganiadau ariannol fel cyfanswm y taliadau ar hyd cyfnod y brydles wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog sylfaenol y Comisiwn.

1.18 **Prydlesi Gweithredu**

Caiff costau prydles weithredu eu codi ar y datganiad costau gweithredu yn ystod y flwyddyn yr eir i'r costau hynny.

## 2. COSTAU STAFF

Daeth costau staff ar gyfer y flwyddyn i £615,406 (2021-22; £572,569) ac roeddent yn cynnwys £456,591 (2021-22; £439,043) mewn cyflogau, £47,474 (2021-22; £39,910) mewn costau nawdd cymdeithasol a £111,341 (2021-22; £93,616) mewn costau pensiwn. Rhoddir dadansoddiad manylach o'r costau hyn yn yr Adroddiad Tâl ar dudalen 29.

## 3. GWARIANT GWEITHREDU ARALL

| | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Costau Cynnal | | |
| Teithio a Chynhaliaeth Staff | **1,499** | 8,458 |
| Teithio a Chynhaliaeth Aelodau'r Comisiwn | **4,603** | 6,408 |
| Ffïoedd Cyrsiau a Hyfforddiant Staff | **9,320** | 13,045 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru – ffi archwilio flynyddol | **10,500** | 9,276 |
| Ffïoedd Archwilio Mewnol | **9,889** | 10,154 |
| Cyfryngau a Hysbysebu | **27,712** | 106,839 |
| Cyfieithu | **49,289** | 76,478 |
| Argraffu, postio ac offer swyddfa ac Adnoddau Dynol | **14,535** | 16,998 |
| Ffôn a chontractau | **810** | 945 |
| Costau llety | **22,809** | 28,003 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | **75,135** | 37,845 |
| Costau cyfrifiadurol anghyfalafol | **204,353** | 164,560 |
| Arall | **3,530** | 1,895 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredu | **15,139** | 71,480 |
| Eitem Anariannol: | | |
| Dibrisiant | **40,786** | 37,099 |
| Dibrisiant Asedau Hawl Defnyddio | **62,454** | - |
| Cyfanswm | **552,363** | 589,483 |

Mae'r costau uchod yn cynnwys £185,279 (2021-22; £310,988) mewn perthynas â gwariant gweithredu arall yr aed iddo ar ran y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Roedd y costau uwch o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn y gwaith a wnaed i baratoi ar gyfer Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru.

